| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ionawr 9, 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd diweddaraf y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflenwi gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd gyda gyrru gwelliant.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

I ddiweddaru Aelodau ar:

- gyflenwad ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2012/13
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar
- ymateb rheolaeth i faterion a godwyd gennym ni
- perfformiad Archwilio Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- ➢ Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol hyd yma yn 2012/13 ac yn rhoi sylwadau
- ➢ Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar ac yn rhoi sylwadau
- ➢ Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymateb i'n gwaith dilynol

## 4. Cynnydd Archwilio Mewnol

***Cyflenwi Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2012/13***

4.1. Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2012/13, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol. Mae'n cynnwys sgorau sicrwydd a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, diffiniadau a ddefnyddiwyd i ffurfio ein sicrwydd archwilio a'r graddfeydd a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer materion a godwyd.

*Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar*

4.2. Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer graddfeydd sicrwydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Sicrwydd Uchel | Risgiau a rheoliadau wedi eu rheoli'n dda |
| **Melyn** | Sicrwydd Canolig | Risgiau a nodwyd ond y gellir eu rheoli ar lefel gwasanaeth |
| **Ambr** | Sicrwydd Isel | Risgiau a nodwyd sy'n gofyn am gyfarfod â Chyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |
| **Coch** | Dim Sicrwydd | Risgiau arwyddocaol a nodwyd sy'n gofyn am gynhadledd achos aelod / swyddog |

4.3. Ers fy adroddiad yn Nhachwedd 2012, rydyn ni wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol.

| Adroddiad Archwilio | Barn Archwilio | Materion a Godwyd | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Risg Critigol (Coch) | Risg Mawr (Ambr) | Risg Canolig (Melyn) | |
| Risg cynhenid uchel o Gofrestr Risgiau Corfforaethol - DCC006 | **Gwyrdd** | 0 | 0 | 0 | Y risg o waethygiad yn yr amgylchedd economaidd y tu hwnt i ddisgwyliadau cyfredol, gan arwain at fwy o alw am wasanaethau a llai o incwm. |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl | **Melyn** | 0 | 0 | 4 | |
| Rheolaeth Gweithrediadau TG | **Melyn** | 0 | 1 | 7 | |
| Tir y Cyhoedd | **Melyn** | 0 | 2 | 12 | |
| Rheolaeth Perfformiad Corfforaethol | **Melyn** | 0 | 0 | 5 | |
| Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth | **Ambr** | 0 | 4 | 3 | Cynhaliwyd cyfarfod galw cynyddol â'r Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol i drafod cynllun gweithredu |

*Ymateb Rheolaeth i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol*

4.4. Mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau rheoli. Rydyn ni'n graddio'r rhain yn risgiau critigol, mawr neu ganolig. Bydd rheolaeth yn cadarnhau camau i ddelio â'r risgiau, yn cynnwys cyfrifoldebau a graddfeydd amser.

4.5. Byddwn yn adrodd pob achos lle bydd rheolaeth yn methu ag ymateb i'n gwaith dilynol neu lle byddan nhw'n methu'r dyddiad gweithredu a gytunwyd o fwy na thri mis. Bydd y Pwyllgor yma'n penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft drwy alw'r bobl berthnasol i'r cyfarfod nesaf neu ofyn am adroddiad ysgrifenedig i esbonio'r diffyg cynnydd.

4.6 Rydyn ni ar hyn o bryd yn mynd ar ôl tri adroddiad Archwilio Mewnol lle nad yw camau wedi eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad gweithredu a gytunwyd. Er nad ydym eto wedi cyhoeddi'r adroddiadau dilynol, rwy'n dwyn y rhain i sylw'r pwyllgor yma'n gynnar. Y tri maes ydi:

- Adnoddau Dynol Strategol
- Cludiant Cartref i'r Ysgol
- Ysgol y Santes Ffraid

***Perfformiad Archwilio Mewnol – Mesurau Allweddol***

***Mesur** – Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd S151 a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013*

4.6. Hyd yma rydyn ni wedi cwblhau 40% o'r prosiectau a gynlluniwyd, gydag eraill i'w cwblhau cyn Mawrth 31, 2013.

***Mesur** - Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013*

4.7. Mae gwaith yn gyfredol ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni wedi cwblhau prosiect ar Reoli Perfformiad a byddwn yn adolygu rheolaeth risg cyn Mawrth 31, 2013.

***Mesur** - Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd Risg Corfforaethol Mawr yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013.*

4.8. Mae yna chwech o risgiau mawr ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi cwblhau gwaith mewn tri maes. Mae gwaith ar y gweill i gwblhau adolygiadau'r risgiau eraill erbyn Mawrth 31, 2013